

YMWARTHOD AG YSBRYD Y BYD

Nodyn i'r siaradwr:

Ar gyfer y drydedd adran isod, gellir canfod nodweddion ysbryd y byd drwy agor tudalennau 390-3 y llyfr *Reasoning* a'u defnyddio. Trafodwch bob pwynt yn ofalus gan resymu ar yr ysgrythurau a grybwyllir a defnyddio'r cyfeiriadau ychwanegol i gadarnhau datblygu'ch deunydd

MAE YSBRYD BYD SATAN YN GROES I YSBRYD DUW, NEU EI RYM GWEITHREDOL (7 mun.)

Mae'n amhosib' cael perthynas dda gyda Duw os ydi "ysbryd y byd" gennym (1Cor 2:12)

Ysbryd y byd ydi'r grym gweithredol hunanol a phechadurus sy'n cymell byd cymdeithas ddynol anghyfiawn
Mae nodweddion sylfaenol arbennig gan y rhai sydd ag ysbryd y byd ganddyn' nhw, sy'n gyffredin i'r drefn bresennol y mae Satan yn dduw iddi (*rs* 389)

Mae ysbryd byd Satan yn cynnwys casáu'r gwirionedd, gweithredoedd y cnawd, a gwrthwynebu holl ffyrdd cyfiawn Jehofah (Gal 5:19-21; 2Tim 3:1-5)

Rhaid i holl addolwyr Jehofah ymwrthod ag ysbryd y byd a'r ymddygiad mae'n ei ysbrydoli (1In 2:15)

Maen' nhw'n meithrin ffrwyth ysbryd sanctaidd Jehofah (Gal 5:22, 23)

Gellir dweud am Gristionogion nad "o'r byd . . . y daw'r hyn y maent yn ei ddweud" (1In 4:1-6; *w*83 10/15 19 ¶11-13)

MAE SATAN YN DEFNYDDIO'R BYD DRWG I WRTHWYNEBU GWIR ADDOLI JEHOFAH (12 mun.)

Rhan grefyddol y byd drwg ydi Babilon Fawr, a ddefnyddir gan yr Archdwyllwr i ddallu ac i ddrysyr' ddynoliaeth
Mae pob cenedl wedi'i gwneud yn feddw gan win ei gau ddsgeidiaeth a'i phuteindra ysbrydol (Dat 18:2-4; *re* 261-4)

Rhan arall o fyd drwg Satan ydi'r drefn fusnes farus, neu fyd masnach

Mae e'n defnyddio hon i ddatblygu ysbryd chwenychu a materoliaeth yng nghalonau dynion (Lc 12:15; *pe* 210 ¶9)

Ymhen amser bydd elfen wleidyddol byd Satan yn brwydro yn erbyn Oen Duw (Dat 17:12-14)

Grym taro'r gyfundrefn wleidyddol yw'r sefydliad militaraid treisgar, sydd wedi achosi lladd disynnwyr mil-
iynau

Mae holl fyd Satan yn foisol lwgr (Rhuf 1:24-27)

Mae'n amlwg na all gweision Jehofah gael unrhyw ran ynddo

Dallodd Satan y cenedloedd rhag gwirionedd Gair Duw, ac maen' nhw'n cerdded mewn tywyllwch meddyl-
iol (Eff 4:17-19; *pe* 210 ¶10)

Caniatawyd i chwaraeon, adloniant, a hamdden ddirywio i fod yn weithgareddau diraddiol, cystadleuol, ac yn
aml yn niweidiol

I ychwanegu at yr anghymedroldeb hwn ceir gorfwyta a goryfed, rhialtwch, ac anfoesoldeb (1Pedr 4:3, 4; *g*89
11/8 3-11; *g*83 10/8 6-8; *w*79 6/1 3-4)

Defnyddia Satan yr holl amlygiadau hyn o ysbryd y byd yn ei frwydr yn erbyn pobl Dduw a'u haddoli Jehofah
(1In 5:19; Dat 12:9, 12, 17; *rs* 390)

BETH YW RHAU NODWEDDION YSBRYD Y BYD Y MAE GOFYN INNI FOD AR EIN GWYLIADWRIAETH RHAGDDYNT? (rs 390-3) (22 mun.)

Mae torri'n rhydd oddi wrth ysbryd y byd yn gofyn mynd i wreiddyn y mater

Rhaid adlewyrchu ysbryd *Duw* a chariad didwyll at ei ffyrdd (1Cor 2:12)

Rhaid amddiffyn rhag agweddau sy'n dangos ysbryd y byd:

- (1) Gwneud yr hyn 'rydym ni eisiau ei wneud, heb ystyried ewyllys Duw (*rs* 187-91; *w*85 11/1 5-7)
- (2) Ymateb i sefyllfaoedd ar sail balchder (*uw* 127-9)
- (3) Amlygu agwedd wrthryfelgar at awdurdod (*g*74 2/8 4-5; *w*72 261-4, 268-9)
- (4) Ildio yn ddiymatal i chwantau'r cnawd cwympedig (*w*85 8/15 13-14; *w*79 6/1 6-8)
- (5) Caniatáu i'n bywyd gael ei reoli gan chwant meddiannu'r hyn a welwn (*w*88 8/15 4-7)
- (6) Ymffrostio yn ein heiddo a'n cyraeddiadau honedig (*w*86 7/15 13 ¶18)
- (7) Rhoi llais i'n hemosiynau drwy iaith ddifriol a gweithredoedd treisgar (*w*83 2/1 7)
- (8) Seilio'n gobeithion a'n hofnau ar yr hyn mae bodau dynol yn medru'i wneud
- (9) Rhoi i fodau dynol a phethau yr anrhydedd addolgar sy'n perthyn i Jehofah

CANFOD GWIR HAPUSRWYDD WRTH UFUDDHAU I JEHOFAH (4 mun.)

Mae Jehofah yn rhoddi llawenydd calon wrth iddo'n dysgu yn ei Air a'n helpu i ganlyn ei egwyddorion daion-
us ar gyfer byw

Mae e'n rhoi bendithion mawr i'w bobl wrth eu defnyddio nhw i achub bywydau eraill drwy bregethu a dys-
gu ei Air

Amddiffynnir rhai ufudd yn gyffredinol rhag effeithiau niweidiol cymdeithasu drwg, byw'n ofer, defnyddio

tybaco, camddefnyddio cyffuriau, a meddwdod (Diar 10:22)

Maen' nhw'n cadw'n brysur ac yn hapus wrth bregethu'r newydd da

Caiff y byd drwg ei ddinistrio, gan dynnu pawb sy'n ei gefnogi ac sydd â'i ysbryd ganddynt i lawr gydag ef (2Pedr 3:7, 12; 1In 2:17)

Mae pawb sydd yn perthyn i fyd Satan yn parhau i bechu ac yn anghymwys ar gyfer bywyd diddiwedd (1In 3:8)

Mae plant Duw yn wirioneddol gasáu Satan, ei weithiau drwg, a'i holl fyd drwg, ond maen' nhw'n caru gwneud ewyllys Duw

Gyda help Jehofah maen' nhw'n benderfynol o ymladd yn erbyn ysbryd y byd hwn ac ennill buddugoliaeth drosto (1In 4:4, 6)

Bydd y rhai sy'n disgwyl y nef a'r ddaear newydd yn cydymffurfio'u bywyd yn ôl cyfarwyddiadau ysbryd daionus Duw a'i Air (2Pedr 3:13, 14, 17, 18; 1In 3:9, 10)

Bydd y rhai sy'n caru Jehofah yn byw bywydau glân, uniawn er mwyn ennill ei gymeradwyaeth a derbyn bywyd tragwyddol yn ei fyd newydd cyfiawn (Diar 2:21)

Fel pobl, maen' nhw'n mynd i'r holl fyd gan bregethu a dysgu'r newydd da fel y gall eraill ganfod y ffordd i'r bywyd (Mth 28:19, 20)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)